Cofnodion cyfarfod 17 Rhagfyr 2019 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 6.30 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Iwan Huws	
Casi Roberts		
Iestyn Harris		
Mei Gwilym		
Nerys John	Wynne Barton	
		CLERC
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Iwan Huws, derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr: Llŷr Evans, Lliwen Griffiths Williams, Aled Emyr, Gruff John, Elliw Williams ac Eifion Williams.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
2.1	Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol ond gofynnwyd a oedd unrhyw ddatblygiad wedi bod ar gyfer bin halen Ger y Nant. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Nerys John i ddatgan bod cyfarfod safle wedi bod rhyngddi hi ac Arolygwr y Ffyrdd am yr ardal a bod penderfyniad wedi ei wneud ar gyfer lleoli'r bin ar y tir Cymunedol o fewn y Stad.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Cafwyd datganiad gan y Cynghorydd Mei Gwilym i item 6.3	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cadarnhawyd gwariant a derbyn adroddiad ar gyfer Mis Tachwedd 2019, derbyniwyd yn gywir gan y Cyngor.	
4.2	Dywedodd y swyddog Ariannol bydd yn paratoi'r gyllideb erbyn mis Ionawr a'i fod angen gwybod yn y cyfarfod os oedd angen clustnodi arian ar gyfer prosiectau. Bydd cyfanswm yr arian sydd ei angen yn cael ei gofnodi yn y pynciau perthnasol.	
4.3	Ceisiadau am gymorth ariannol angen ei hysbysebu gyda dyddiad cau 31 Ionawr 2020. Dywedodd y Clerc ei bod wedi cael copi o'r ffurflen gais bellach oherwydd roedd wedi ei roi o'r neilltu a methu dod o hyd iddo. Mae pawb sydd wedi derbyn cymorth y flwyddyn ddiwethaf wedi derbyn copi o'r ffurflen beth bynnag. Y Clerc a'r Cynghorydd Casi Robert i sicrhau bod copi ar y wefan.	**CLERC/CR**
4.4	Rhoddwyd gwybodaeth bellach ynglŷn â chyflog y Swyddog Ariannol a'r Clerc Ysgrifenyddol bod angen rhoi codiad costau byw'r ddwy flynedd ddiweddaraf ar eu cyflog i sicrhau eu bod yn cyd-fynd a'r graddfeydd SLCC cyfredol. Y Swyddog ariannol i sicrhau bod copi cyfredol ar gael i'r Is-bwyllgor cyflogaeth.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd fel rhai cywir ond bod angen ychwanegu'r canlynol o fewn yr eitem trafod adroddiad Llwybrau. i. Angen copi o gytundeb gwneud llwybr Rowen yn Lwybr cyhoeddus oherwydd y gallai cael effaith ar gontract cynnal y llwybrau sydd gan y Cyngor Cymuned. Ii. Y	

	Swyddog Dylan Griffiths o Gyngor Gwynedd yn barod i drefnu glanhau sbwriel o'r Afon ger Llwybr Cerrig yr Afon ac mae'r Cynghorydd Nerys John yn barod i gyfarfod ag ef i drefnu dyddiad. iii. Y Cynghorydd Eifion Williams i symud ymlaen a chael contractwr i wneud gwaith o godi stanciau newydd ar Lwybr Cerrig yr Afon.	
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	C19/1132/20/DT - 34 Ffordd Garnedd Y Felin heli – Codi Balconi ar yr ail lawr, ymestyn y balcony presennol ar y llawr cyntaf ynghyd a gosod ffesnestr gromen. **– DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC -**
6.2	C19/1117/20/DT – Min Awel, 6 Bush Road Y Felinheli LL56 4UJ – estyniadau a newidiadau – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.3	C19/1094/LL – Bush Farm Y Felinheli LL56 4QP – cais ol weithredol i gadw adeilad amaethyddol ar gyfer storio gwair, gwellt a bwyd anifeiliaid ynghyd a chodi canopy to dros yr ardal gwasanaeth agored presennol- **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Cafwyd gwybodaeth a'r rhai materion yn codi o'r cyfarfod mis Tachwedd. Y Cynghorydd Daniel Llewelyn wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth Gruff John ar sut i gael gwybodaeth oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru pan fydd afonydd yr ardal yn llawn. Y Cynghorydd i anfon y wybodaeth i'r aelodau eraill. Nid oedd mwy o wybodaeth wedi dod i lawr ar gyfer cynllun atal llifogydd Lan y Môr ond mae angen atgoffa Cyngor Gwynedd eu bod wedi addo trefnu pwyllgor i drafod datblygiadau gweithredu'r cynllun.	**CLERC**
7.2	Derbyniwyd anfoneb codi cysgodfan Aberpwll (yr un gwreiddiol). Cytunwyd i dalu'r anfoneb.	
7.3	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi derbyn pris gan Mace Maine Amstad ar gyfer codi a gosod cysgodfan bws (cantilever). Trafodwyd y dyluniad a hefyd o roi gwaith i bobl leol i ddylunio a chodi safle bws. Felly ni fydd y prisiau yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd. Penderfynwyd clustnodi £6K yn y gyllideb ar gyfer prosiect codi cysgodfan bws ger Cwrt Menai.	**DW/Swyddog Ariannol.**
7.4	Mae golau solar oedd wedi ei osod ar gysgodfan Cerrig yr Afon wedi ei ddwyn. Trafodwyd y mater a dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi cael gwybodaeth oddi wrth gwmni dyluniad y gysgodfan bod modd gosod solar panel ar do'r safle. Trafodwyd y golau a hefyd y mater bod y golau stryd yn y safle bws gyferbyn ddim yn gweithio. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd. Mae costau cynnal y goleuadau yn syrthio ar y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd codi cyllideb y cysgodfannau i £10K.	**CLERC/DW/ Swyddog Ariannol**
7.5	Cafwyd adroddiad bod arwyddion ffyrdd yr ardal yn fudr iawn a bod nhw ddim yn eglur i ddefnyddwyr y ffordd. Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir. Hefyd mae sbwriel wedi ymddangos ar ymylon y ffyrdd ar ôl toriad i'r gwair. Y Clerc i ddod a hyn i sylw'r Cyngor Sir hefyd.	**CLERC**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	

8.1	Trafodwyd materion Llwybrau yn eitem 0.0	
8.2	Tir Hen Reilffordd - cafwyd fwy o wybodaeth ynglŷn ag amserlen y les sef 7 - 10 mlynedd yn ôl. Hefyd Geraint Jones oedd enw'r swyddog oedd yn delio a'r mater ar ran cwmni cyfreithwyr Emyr Thomas ar ran y Cyngor Cymuned. Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir a hefyd y Cwmni Cyfreithwyr.	**CLERC**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Mae bwrdd rhybuddion y fynwent wedi pydru. Penderfynwyd gofyn i Meical Huws am bris ar gyfer gosod un newydd neu os oes modd i wneud gwaith cynnal i'r un presennol.	**DLLW/CLERC**
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Nid oedd unrhyw wybodaeth wedi dod i law ar gais y Cyngor Cymuned i dderbyn cymorth ariannol gan Comic Relief. Penderfynwyd clustnodi £15K o arian ar gyfer meysydd chwarae yn y gyllideb.	**Swyddog Ariannol.**
10.2	Llythyr Cyngor Gwynedd ar Feysydd Chwarae'r Wern a Glan y Môr. Trafodwyd cais y Cyngor Sir ar gyfer cymryd cyfrifoldeb ar sail les ar gyfer y meysydd chwarae. Penderfynwyd trefnu cyfarfod a hwynt i drafod gwahanol fodelau sydd ar gael. Y Clerc i anfon ymateb – nid oes ymateb i hyn wedi ei dderbyn hyd yma.	**CLERC**
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams.	
11.2	Ymateb a gafwyd i'r ceisiadau tendro am y gwaith o godi'r porch - y broses i barhau i dderbyn tendrau eraill. Penderfynwyd clustnodi £10K o fewn y gyllideb ar gyfer y Neuadd.	**DW/Swyddog Ariannol**
11.3	Mae'r gwaith CCTV yn mynd yn ei flaen.	**DW**
11.4	Mae angen dau fwrdd sgwâr i'r neuadd. Cytunwyd i symud ymlaen i brynu'r rhain.	**DW**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		**Dyddiad:**